
Partneriaeth Cydwasanaethau
Gwasanaethau Cyflogaeth
Shared Services Partnership
Employment Services

# Cylchlythyr System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu (WNWRS) Ionawr 2021

## System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

### Brechiadau COVID-19

Os yw eich Practis yn rhan o'r gwaith o ddarparu'r Brechiad COVID-19 ledled Cymru, noder y caiff y canllawiau 'Trefniadau Indemniad yn ystod Pandemig Coronafeirws' sydd ar gael ar hyn o bryd ar wefan y Tîm GMPI (yma) eu diweddaru'n fuan fel eu bod yn cynnwys canllawiau yn ymwneud â Brechiadau COVID-19. Bydd Rheolwyr Practisiau a Meddygon Teulu yn cael gwybod pan fydd y canllawiau wedi'u diweddaru ar gael. Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw ymholiadau indemnio yn ymwneud â brechiadau COVID-19, cysylltwch â'r Tîm GMPI drwy GMPI@wales.nhs.uk.



### Ffocws ar: Gweithwyr Locwm

Mae'r Canllawiau ar gyfer GMPI mewn perthynas â gweithgarwch locwm wedi newid a chyhoeddwyd canllawiau wedi'u diweddaru ar 8 Rhagfyr 2020.

O 1 Chwefror 2021, bydd angen i feddygon teulu locwm gofnodi'r holl sifftiau a weithiwyd ar Locum Hub Wales yn ogystal â chael eu cynnwys ar Y Gofrestr Meddygon Locwm i Gymru Gyfan.

**CAM GWEITHREDU:** O 1 Chwefror 2021, mae angen i'r holl Reolwyr Practisiau sy'n defnyddio Gweithwyr Locwm wirio bod y Gweithwyr Locwm maent yn eu defnyddio yn cofnodi eu sifftiau yn Locum Hub Wales. Nid yw hyn yn berthnasol i Bractisiau a Reolir.

Cofrestrwch ar Locum Hub Wales (dolen yma) i weld sut y gall y wefan helpu eich practis chi.

***Gweler y ddolen yma i gael gweld y Canllawiau newydd ar gyfer GMPI***
***Gweler y ddolen yma i weld rhai Cwestiynau Cyffredin am y Canllawiau newydd***

### Pen-blwydd Hapus i WNWRS yn 1 oed!

Byddwch wedi derbyn e-bost y mis hwn gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru mewn perthynas ag WNWRS a pharhad gwasanaethau.

Bydd mis nesaf yn nodi blwyddyn ers lansiad WNWRS ledled Cymru. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda chi i ddarparu data cadarn i Gynllunwyr y Gweithlu, gan eu galluogi i helpu'ch Practis yn y dyfodol.

Os oes gennych unrhyw adborth ar System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu ac unrhyw awgrymiadau neu welliannau yr hoffech eu gweld, rydym yn eich annog i gysylltu â ni ar nwssp.primarycarewnwrs@wales.nhs.uk

### Syniadau ac Awgrymiadau




**Sesiynau Meddygon Teulu**

Mae angen i'r holl oriau a fewnbynnir i System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu gael eu cofnodi fel cyfanswm yr oriau, nid fel sesiynau. Mae pob sesiwn yn cyfateb i 4.167 awr, felly gellir cyfrifo oriau'r holl staff fel hyn. Mae oriau llawn-amser yn cyfateb i 9 sesiwn a dylid nodi hyn fel 37.5 (4.167 x 9). Sicrhewch fod yr oriau a gofnodir yn y blychau Oriau Gweithio ac Oriau Wedi'u Contractio yn gywir, yn enwedig ar gyfer eich meddygon teulu.

### Data Gweithwyr Locwm ar WNWRS

Parhewch i lenwi data Gweithwyr Locwm nad ydynt yn gweithio sifftiau rheolaidd yn eich practis ar WNWRS dros y misoedd nesaf, hyd nes ein bod yn newid i gasglu'r data hyn o Locum Hub Wales.

Caiff y data Gweithwyr Locwm hyn eu casglu bob mis ar WNWRS ond, os na fyddwch yn nodi manylion ar gyfer mis penodol, dylech nodi'r manylion hyn ynghyd â'r manylion newydd yn y mis nesaf.

Os byddwch yn methu'r terfyn amser chwarterol, ni fyddwch yn gallu nodi'ch data Gweithwyr Locwm, felly cadwch hyn mor gyfredol ag y gallwch.

Gall Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru eich helpu gyda mewnbynnu data ar WNWRS. Os hoffech wybod rhagor, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio'r e-bost isod.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, mae croeso ichi gysylltu â ni:

Ffôn: 01792 860489
E-bost: NWSSP.PrimaryCareWNWRS@Wales.nhs.uk

Gwasanaethau Cyflogaeth
**Partneriaeth Cydwasanaethau**

Shared Services Partnership
**Employment Services**

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan ar: https://pcgc.gig.cymru/